# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION - CYFARFOD GORFFENAF 2021

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 13eg o Orffenaf 2021** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Y Festri, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Ynyr Ellis** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan ymestyn croeso arbennig i Luned Evans oedd wedi dod i ddiweddaru'r aelodau ar ymgyrch Bwyllgor y Cae Chwarae i adnewyddu'r cae ac offer.<br><br>Yn bresennol heno roedd John Owen **(JO),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Lisbeth James **(LJ)**, William Jones **(WJ),** Sianelen Pleming **(SP),** Luned Evans **(LE).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Sara Williams **(SW),** Olwen Roberts **(OR),** Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ)** |
| **3.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad. |
| **4.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Adroddodd GJ ei fod erbyn hyn wedi codi bin baw ci arall ochor Nefyn i bentref Llithfaen, diolchodd pawb iddo. Cyflwynodd anfoneb am ddefnyddiau. |
| **5.** | **COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 2021** |
| | **a) <u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u>**<br><br>Gofynnodd SP am gwyrdebau man i'r cofnodion sef:<br>**5 (b) ii Llwybr Capel Isaf -** ANHE oedd wedi cilio'r llwybr<br>**7 (c) Gwersylla –** Diffygion yr heddwas oedd y rheswm nad oedd y llythyr I'r gwersyllwr wedi ei yrru.<br>Cynigiodd JO gywirdeb gweddill y cofnodion gyda GJ yn eilio a phawb yn cytuno. |

*LLOFNODWYD ................................................................ DYDDIAD ................................................................*

| | |
|---|---|
| | **b)** <u>**MATERION YN CODI**</u><br><br>i. SP – Diffygion yn parhau gyda golau Lon Plas – y clerc I wneud ymholiadau pellach.<br><br>ii. SP - Trefniadau parthed gyrru bin yn ôl I Glasdon - Adroddodd SP bod rhiw un wedi bod yn chwilio am y bin yn y siop ond nid oedd yn ymwybodol bod trefniadau mewn lle i'w godi. Teimlodd bod y siop y anaddas i'r trefniadau cytunwyd trefnu iddo gael ei godi o dy GJ.<br><br>iii. GJ - Gofynnodd GJ am unrhyw ddiweddariad parthed arwydd I Lon y Rhosydd - cytunodd y Clerc I wneud ymholiadau pellach gyda Chyngor Gwynedd. |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim ar y noson. |
| **7.** | **CAE CHWARAE LLITHFAEN** |
| | Diolchodd LE am y cyfle i ymuno ar gyfarfod heno, diolchodd hefyd am gefnogaeth y Cyngor Cymuned ac am eu rhodd werthfawr.<br><br>Cadarnhaodd bod gweithredoedd newydd parthed y Cae Chwarae wedi eu cwblhau erbyn hynna ac aeth ati i esbonio am lwyddiant cais am nawdd gan Gronfa Datblygu Anhe Llyn ac esboniodd bod cytundeb i gynnwys elfennau o fyd natur yn un o amodau i dderbyn y cais hwn.<br><br>Cadarnhaodd eu bod erbyn hyn wedi derbyn ychydig dros £9,000.00 tuag at gronfa'r ymgyrch. Esboniodd eu bod hefyd yn y broses o wneud cais am nawdd pellach i gronfa'r Loteri Genedlaethol, ac os yn llwyddiannus bydd hyn yn codi'r gronfa i £85,000.00 ac yn fraint enfawr i'r Pwyllgor. Bydd rhaid yn gyntaf derbyn ffigyrau yn ôl gan gwmni'r offerynnau cyn cyflwyno cais i'r Adran Gynllunio. Bydd cais i gronfa'r loteri yn cael ei gyflwyno ar ôl derbyn cytundeb. Gobeithiodd bydd cais i'r Loteri yn cael ei gyflwyno ddechrau Fis Medi.<br><br>Adroddodd bydd y nawdd yn cael ei ddefnyddio mewn dau gam sef:<br><br>Cam 1: Sychu'r cae drwy osod traeniau<br>Cynnwys elfennau o fyd natur<br>Llwybr beics rownd yr offer<br><br>Cam 2: Offer newydd<br><br>Adroddodd bod rhan o'r gwaith plannu sef coed afalau, coed brodorol a blodau gwyllt wedi ei gynnal eisoes yn y gornel wast ond bydd angen plannu 420 o goed cadw i wneud gwrych o amgylch y cae ym mis Tachwedd. Gofynnodd am wirfoddolwyr.<br><br>Cadarnhaodd bod y llwybr beics o amgylch ardal yr offer wedi ei osod yn barod ac yn llwyddianus a phoblogaidd iawn. |



*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| | Esboniodd bod ymgynghoriad wedi ei gynnal i ddarganfod syniadau lleol parthed offer a.y.b. a'i bod hefyd wedi gofyn i gwmnïau offer am arweiniad ar wariant.<br><br>Cadrnhaodd bod 'TOP 5' wedi ei gynrychioli gan y plant gyda trampoline yn uchel ar y rhestr. Zip line hefyd yn uchel ar y rhestr ond yn anffodus bydd cost y cais cynllunio yn golygu bydd rhaid ei adael am y tro. Gofynodd am fewnbwn yr aelodau.<br><br>Awgrymodd GW bod Elusen Pistyll sef cronfa i blant yn parhau i fodoli, diolchodd LE am y wybodaeth ac esboniodd ei bod hefyd wedi derbyn gwybodaeth am nawdd pellach gan gwmnïau'r offer.<br><br>Cynigiodd GJ bydd cwt yn ddefnyddiol a rhywbeth i arbed y planhigion rhag geifr, defaid a phlant. Cynigiodd SP Lwybr Antur ac LJ yn cynnig mainc. Cadarnhaodd LE bydd dwy fainc yn cael ei osod yn ystod Gam 1.<br><br>Gofynodd GJ a fydd yswiriant y cae chwarae yn codi wedi sefydlu'r offer, nid oedd LE yn siwr hyd yn hyn a cadarnhaodd bod Ysgrifennydd y Pwyllgor yn gwneud ymholiadau.<br><br>Holodd YE os bydd y Cae Pêl droed yn cael ei adnewyddu, cadarnhaodd LE eu bod wedi gwneud cais am fostiau ond nid oedd wedi derbyn cais gan y plant i leoli pustiau rygbi. |
| **8.** | **GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO** |
| | Adroddodd SP ei bod wedi cyfathrebu ymhellach gyda'r heddwas yn ystod y mis i gadarnhau trefniadau pellach parthed anfon y rhybudd i'r gwersyllwr presennol.<br><br>Esboniodd y clerc ei bod wedi gyrru llythyr ar ran y Cyngor Cymuned i Brif Weithredwr y Cyngor Sir, y Cadeirydd, Pennaeth Adran Amgylchedd a Phennaeth yr Aran Gyfreithiol yn gofyn oes ganddynt strategaeth i helpu'r Cyngor Cymuned ddelio â'r broblem hefyd yn gofyn iddynt i drefnu adroddiad/ pwyllgor neu gyfarfod i edrych ar y sefyllfa. Os mai'r consensus ar ôl hyn yw bod y broblem y tu allan i bwerau'r Cyngor Sir ac angen deddfu i wella'r sefyllfa gofynnodd iddynt hefyd i bwyso ar y Llywodraeth am bolisïau newydd ar fyrder i'r broblem gynyddol sirol hon.<br><br>Derbyniwyd ymateb bydd y Cyngor Sir yn ymateb ar y cyd, ni dderbyniwyd amserlen i hyn.<br><br>Anfonwyd hefyd at glercod Cynghorau Cymuned Dwyfor, Arfon a Meirionydd yn gofyn iddynt bwyso ar y Cyngor Sir am gymorth i ddatrys y broblem a derbyniwyd ymatebion gwych gyda chytundebau i bwyso ymhellach ar y Cyngor Sir.<br><br>Adroddodd GJ nad oedd arwyddion pellach ar gyfer y maes parcio wedi cyrraed hyd yn hyn, y clerc i wneud ymholiadau. |



*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| **9.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP bod arwydd ar gyfer y maes parcio bellach wedi cael ei leoli a diolchodd i GJ am ei gymorth. Esboniodd bod llawer o geisiadau am gytundebau parcio nawr wedi ei dderbyn gyda llai o foduron yn parcio heb gytundeb. Bydd trefniadau i leoli marciau mannau parcio yn cael ei gwneud yn fuan.<br><br>Esboniodd ymhellach nid oedd cyfarfod gyda'r Cyngor Sir ac aelodau'r Cyngor i drafod cyflwr y ganolfan wedi ei gynnal hyd yn hyn. |
| **10.** | **LLWYBR CERDDED I LITHFAEN** |
| | Nid oedd posib trafod y mater gan nad oedd yr Aelod Lleol yn bresennol. |
| **11.** | **GÔR YRRU** |
| | Adroddodd y clerc ei bod bellach wedi derbyn a gyrru blaen y ffurflenni cais am Hyfforddiant Gorchwylio Cyflymder Cymunedol i'r gwirfoddolwyr, nododd SP nad oedd esboniad o sut bydd y wybodaeth yn cael ei ddefnyddio nac amserlen i'r hyfforddiant, y clerc i ofyn am y wybodaeth.<br><br>Gofynodd YE am ddiweddariad parthed y twmpathau, ymddiheurodd y clerc nad oedd diweddariad wedi ei dderbyn hyd yn hyn. Y clerc i ddilyn y mater ymhellach. |
| **12.** | **MATERION LLEOL** |
| | **WJ** – Nodwyd nad oedd y coed rhwng Pistyll a Penbrys wedi ei barbio yn ddigonol - Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir. |
| **13.** | **GOHEBIAETH** |
| | **a) RHEOLWR GWYLIO CYFLYMDER CYMUNEDOL - FFURFLEN GWIRFODDOLI**<br>Gweler pwynt 11<br><br>**b) GLASDON UK – DIFFYG CODI**<br>Gweler 1 (b) ii<br><br>**c) YMATEBION CYNGHORAU – GWERSYLLA DROS NOS**<br>Gwler pwynt 8 |



*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| | **d) UN LLAIS CYMRU - CYLCH LYTHYR Mehefin**<br>Y wybodaeth wedi ei rannu gyda'r aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**e) RHAGLEN WAITH TRAFNIDIAETH A PHRIFFYRDD MIS GORFFENNAF 2021**<br>Y wybodaeth wedi ei rannu gyda'r aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**f) CAIS AM GEFNOGAETH GAN GYNGOR LLANDEGAI - DIFFYG YMATEB GAN Y CYNGOR SIR**<br>Cytunwyd bod cyfarthrebu yn ddigonol.<br><br>**g) NANT GWRTHEURN – CRONFA AHNE LLYN**<br>Y wybodaeth wedi ei rannu gyda'r aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**h) STEPHAN JONES -TOILEDAU CYHOEDDUS LLITHFAEN**<br>Nodwyd bod Steffan Jones wedi cytuno gwneud trefniadau am asesiad o'r gwaith sydd ei angen i dacluso'r toiledau. |
| **14.** | **CYLLID** |

a) **CYFRIFON 2020/21**

Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad ar ragamcanion.
Cynigiodd GW eu cywirdeb gyda GJ yr eilio a phawb yn cytuno.

b) **TRAFODION Y GYFRIFLEN BANC DIWEDDARAF**

**<u>CYFRIF CYFREDOL - 1 MEHEFIN – 30 MEHEFIN 2021</u>**

| **BALANS CYCHWYN - £8,487.28** | | |
|---|---|---|
| **RHIF SIEC** | **TALIADAU** | **DERBYNIADAU** |
| 201209 | **17.00** | |
| 201208 | **160.00** | |
| 210204 | **334.53** | |
| 201207 | **450.09** | |
| 201206 | **16.85** | |
| 201210 | **20.00** | |
| **BALANS CAU – 7,488.81** | | |

**<u>CYFRIF CADW - 7 MAI – 6ED O FEHEFIN</u>**

| **BALANS CYCHWYN - £2,660.73** | |
|---|---|
| | **DERBYNIADAU** |
| | 0.07 |
| **BALANS CAU** | **£2,660.80** |

*LLOFNODWYD ........................................................................ DYDDIAD ........................................................................*

| | |
|---|---|
| | c) **TALIADAU I'W CYMERADWYO**<br><br>201211 — **Griffith Jones (Nwyddau)** — **120.00**<br>201212 — **Cyflog Clerc** — **160.00**<br>210213 — **Treuliau Clerc** — **19.10** |
| **15.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | **14eg Fedi yn y Festri, Llithfaen.** |

*LLOFNODWYD ............................................................................... DYDDIAD ..............................................................................*